



DYFFRYN AFAN

.....



CYFLWYNIAD



Mae ardal gymunedol Cwm Afan yn cynnwys adrannau etholiadol Pelenna, y Cymer, Glyncorrwg a Gwynfi.

Mae Cwm Afan yn agos iawn i sawl ardal â phoblogaeth drefol drwchus, gan gynnwys Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn wahanol i lawer o'r ardaloedd eraill, nid oes ganddi ganolfannau poblogaeth mawr ond, yn hytrach, mae ganddi gyfres o bentrefi ymysg cefn gwlad gogoneddus.

Mae Cwm Afan wedi datblygu'n ardal ar gyfer gweithgareddau awyr agored, gyda llwybrau beicio mynydd o safon ryngwladol, llwybrau cerdded a llwybr beicio lefel isel ar hyd llawr y cwm.

Ceir dwy brif ganolfan ymwelwyr yng Nghwm Afan: Canolfan Beicio Mynydd Pyllau Glyncorrwg a Chanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan. Mae'r ddwy'n rhoi mynediad uniongyrchol i nifer mawr o lwybrau cerdded a beicio mynydd.

Mae Cwm Afan yn cynnwys Amgueddfa Glowyr De Cymru, sy'n rhan o Ganolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan. Mae'r amgueddfa'n elusen gofrestrdig ac yn cael ei rheoli gan wirfoddolwyr sy'n ymroddedig i hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol Cwm Afan. Mae'r amgueddfa'n cynnwys arddangosion dan do ac awyr agored.





CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O’N HYMARFERION
CYNNWYS AC YMCHWIL:

.....



Cafodd lles cymdeithasol ei ddisgrifio gan ymatebwyr i'r arolwg yn nhermau hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn i gymuned, gyda chysylltiadau cryf â ffrindiau, cymdogion ac aelodau teulu y gellid dibynnu arnynt am gymorth. Roeddent o'r farn bod gallu cyfrannu at y gymdeithas a themlo eu bod yn angenrheidiol i bobl eraill yn bwysig.

Codwyd materion iechyd a gwasanaethau gofal iechyd gan nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys materion megis rhestrau aros ac apwyntiadau wedi'u hoedi. Cydnabuwyd bod bwyta'n iach yn bwysig, er ei fod yn cael ei rwystro'n aml trwy'r angen i brynu bwyd rhad.

Roedd rhai pobl yn cael lles cymdeithasol trwy eu gwaith a thrwy eu gweithgareddau hamdden. O ran gwelliannau i les cymdeithasol, roedd cydbwysedd gwaith/bywyd yn ffactor; nododd nifer o ymatebwyr fod cyfyngiadau amser yn un o'r pethau a oedd yn eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd costau chwaraeon a digwyddiadau hefyd yn broblem i rai ymatebwyr.

Roedd yr ysgol yn ganolfan gymdeithasol bwysig i'r rhai â phlant, gan eu galluogi i gysylltu â rhieni eraill ac yn rhoi cyfleoedd gwirfoddoli iddynt.





ECONOMAIDD



Yn ôl diffiniad ymatebwyr i'r arolwg, lles economaidd yw bod â digon o arian i fyw, a bod yn rhan o gymdeithas economaidd sefydlog. Y ffactorau mwyaf cyffredin a ddyfynnwyd sy'n cyfrannu at les economaidd oedd bod â swydd a gallu cynnal safon byw dderbyniol. Roedd ymatebwyr yn credu y byddai cyfleoedd i gael gwaith lleol, biliau cartref is a chynnydd mewn cyflogau'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwelliannau mewn lles economaidd.

Roedd ffactorau eraill sy'n effeithio ar ymdeimlad o les economaidd yn cynnwys cysylltedd o ran signal ffonau symudol a band eang. Ar y llaw arall, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod prinder cyfleoedd cyflogaeth lleol, yn ogystal â byw mewn cymunedau heb reilffordd, yn amharu ar les economaidd. Hefyd roedd gofal plant yn bryder i rieni sy'n gweithio o ran fforddadwyedd a'r gallu i ddod o hyd i gymorth digonol i gyflenwi er mwyn galluogi amser i gymudo.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad diwethaf (2011) y bu 6.3% o ddiweithdra yng Nghwm Afan a bod 43.3% o bobl a oedd yn 16 oed neu'n hŷn heb unrhyw gymwysterau, sy'n sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, sef 25.9%.

O'r 2,756 o gartrefi yn yr ardal, nodwyd bod 2,145 (77.8%) yn ddifreintiedig, gan ddefnyddio un neu fwy o'r 4 dimensiwn amddifadedd canlynol: cyflogaeth, addysg, iechyd/anabledd a gorboblogi mewn aelwydydd (Cyfrifiad 2011).





Mae'r ardal yn cynnwys cymoedd â llethrau serth, gyda llawer ohoni'n blanhigfa gonwydd ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Mae'r ucheldir yn nodi ffin ddeheuol gorgorsydd mawn sydd, yn ogystal â bod yn gynefin bwysig, yn helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Mae fferm wynt Pen y Cymoedd, yn ogystal â bod y fferm wynt ar y tir fwyaf yng Nghymru a Lloegr, yn safle prosiect adfer mawn mawr.

Mae Coedwig Afan yn cynnwys cynefinoedd pwysig, megis glo gwastraff a rhostir sy'n cynnal poblogaethau sylweddol o ymlusgiaid, creaduriaid di-asgwrn-cefn prin a phlanhigion. Mae Cwm Afan yn cynnwys dros 17 o ardaloedd llawn bywyd gwyllt ac un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar safle'r hen lofa ar domen y Bryn. Dyma ardaloedd sydd wedi'u dewis am eu gwerth bioamrywiaeth lleol.

Mae ansawdd dŵr yn y cwm wedi gwella'n fawr ond mae angen gwneud mwy o hyd, yn enwedig i fynd i'r afael â dyfroedd o byllau glo a chael gwared ar rwystrau artiffisial sy'n rhwystro mynediad i bysgod.

Mae'r ardal yn enwog am ei llwybrau beicio mynydd arbennig a thrwy gydol y broses gynnwys, cafodd amgylchedd naturiol a choedwig Cwm Afan eu hamlygu fel un o asedau mwyaf yr ardal. Mae Cwm Afan yn rhoi digon o gyfleoedd i fynd am dro, o'i chymharu ag ardaloedd eraill yn nes at goridor yr M4.

Roedd darparu manau cyhoeddus diogel a glân yn bwysig i lawer o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy ac roedd agosrwydd at siopau a gwasanaethau lleol yn chwarae rôl allweddol. Yn gyffredinol, y farn oedd bod preswylwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am yr amgylchedd, er bod tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel yn broblemau o hyd. Hefyd roedd peth gwrthwynebiad i adeiladu ffermydd gwynt gerllaw.





Mae gan Gwm Afan ystod gyfoethog ac amrywiol o asedau treftadaeth adeiledig a diwylliannol, sy'n chwarae rôl hanfodol wrth greu ymdeimlad o le a hunaniaeth leol ar gyfer yr ardal. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos ymdeimlad cryf o les diwylliannol yn seiliedig ar natur glòs y gymuned a chyfres o werthoedd nas lleferir sydd wrth wraidd y gymuned ac sy'n uno'r rhai sy'n byw yno.

Nododd pobl gyfeillgarwch y gymuned, gyda thrigolion yn cyfarch ei gilydd ac yn gwenu ar ei gilydd ar y stryd ac yn cynnal ymdeimlad o ddiogelwch cymunedol trwy gydgefnogi. Ystyrid bod cyffredinrwydd teuluoedd estynedig yn yr ardal yn hanfodol i hyn.

Amlygwyd bod chwarae rhan weithredol yn y gymuned yn bwysig i les diwylliannol. Ystyrid bod chwaraeon, yn enwedig pêl-droed a rygbi, yn hanfodol i les diwylliannol yr ardal, gan eu bod yn dod â phobl ynghyd ac yn annog ymarfer corff iach.

Cwm Afan yw man geni'r actor Richard Burton. Ceir delwedd maint go iawn o Burton ei hun yng Nghwm Afan, ar hyd y llwybr beicio lefel isel.

Mae amrywiaeth o gyfleusterau hamdden yn yr ardal gymunedol, gan gynnwys pwll nofio cymunedol a nifer o ganolfannau cymunedol. Mae Canolfan Gymdeithasol Blaengwynfi'n cynnwys ystafell snwcer, neuadd chwaraeon, ystafell codi pwysau ac ystafell iechyd. Mae Ysgol Gyfun Cymer Afan a'r ysgolion cynradd yn yr ardal yn ysgolion cymunedol sy'n galluogi'r gymuned leol i ddefnyddio rhai o'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol.

Mae dwy lyfrgell a reolir gan y gymuned yng Ngwm Afan: un ym Mlaengwynfi a'r llall yn y Cymer. Ar hyn o bryd mae wyth parc/lle chwarae yn yr ardal. Mae pedwar o'r rhain yn cynnwys cyfarpar chwarae sefydlog, ac mae un yn cynnwys Ardal Gemau Amldeffnydd. Mae Cwm Afan hefyd yn cynnwys dau fan gwyrdd (sy'n gallu amrywio o ardaloedd amwynder anffurfiol i goetir). Mae'r ardal hefyd yn cynnwys caeau rygbi a phêl-droed, lawntiau bowls a chyrtau tennis.

Mae gan Gwm Afan hefyd amgueddfa treftadaeth lofaol yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan, sef Amgueddfa Glowyr De Cymru. Mae'r amgueddfa'n elusen gofrestredig ac yn cael ei rheoli gan wirfoddolwyr sy'n ymroddedig i hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol Cwm Afan. Mae 31 o adeiladau rhestredig yng Nghwm Afan, gyda'r mwyafrif ohonynt yn y Cymer.

O ran y Gymraeg, dim ond 8.4% (521) o breswylwyr Cwm Afan sy'n gallu siarad Cymraeg; fodd bynnag, roedd rhai pobl yn y cwm yn cydnabod y dylid gwneud mwy i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Yn debyg i ardaloedd eraill yn y fwrdeistref sirol, mae nifer y bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn ardal gymunedol Cwm Afan yn fach, gan adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol ar draws y fwrdeistref sirol.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad ostyngiad yng nghanran y bobl a oedd yn disgrifio eu hunain yn Gristnogion, o 64% yn 2001 i 49% yn 2011. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl a oedd yn nodi 'dim crefydd', o 23% i 42%.

O ran ffactorau sy'n cyfrannu at les diwylliannol, nodwyd y celfyddydau a diwylliant, a mynediad i amgueddfeydd a sinemâu. Amlygwyd diffyg darpariaeth cludiant cyhoeddus fel rhwystr sylweddol i les diwylliannol.



**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

